Canlyniad sgrinio eich baban: Mae amheuaeth bod gan eich baban ffenylcetonwria (PKU)

Mae prawf smotyn gwaed (prawf pigo sawdl) eich baban newydd-anedig yn awgrymu y gallai fod ffenylcetonwria (PKU) ganddo.

Bydd angen rhagor o brofion ar eich baban i gadarnhau a oes ganddo PKU.

Beth yw PKU?

Mae PKU yn gyflwr etifeddol prin ond y gellir ei drin.

Nid oes gan fabanod â PKU ddigon o ensym sydd ei angen i dorri i lawr rhan o'r protein a geir mewn bwyd. Heb yr ensym hwn, gall rhai sylweddau gronni yn y corff. Os na chaiff ei drin, gall PKU arwain at broblemau iechyd hirdymor.

Gyda diagnosis a thriniaeth gynnar, gall babanod â PKU dyfu a datblygu'n normal, a gall pobl â PKU fyw bywydau iach a gweithgar.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd tîm metabolig arbenigol yn trefnu rhagor o brofion i gadarnhau a oes gan eich baban PKU.

Efallai y bydd yn cymryd ychydig ddyddiau i chi dderbyn canlyniadau'r profion hyn. Yn ystod y cyfnod hwn, gallwch barhau i fwydo'ch baban ar y fron neu o botel fel arfer.

Os bydd eich baban yn mynd yn sâl neu os ydych chi'n poeni nad yw'n bwydo'n iawn, ceisiwch gymorth meddygol.

Os bydd y profion yn cadarnhau bod gan eich baban PKU, byddwch yn derbyn rhagor o gefnogaeth a gofal gan y tîm arbenigol. Byddant yn egluro'r cyflwr yn fanylach, yn ateb eich cwestiynau ac yn dechrau triniaeth yn gyflym.

Sut y gallech chi fod yn teimlo:
Mae'n gwbl naturiol teimlo'n bryderus neu'n ansicr pan fydd angen profion pellach ar eich baban. Gallwch gael rhagor o wybodaeth a chefnogaeth gan y grwpiau canlynol:

Metabolic Support UK

- Gwefan: www.metabolicsupportuk.org
- Rhif ffôn: 0845 241 2173 neu 0800 652 3181
- E-bost: contact@metabolicsupportuk.org

The National Society for Phenylketonuria (NSPKU)

- Gwefan: nspku.org
- Rhif ffôn: 030 3040 1090

Mae llyfryn defnyddiol am PKU ar gael ar wefan British Inherited Metabolic Diseases Group (BIMDG)

Manylion cyswllt ar gyfer y tîm metabolaidd arbenigol:

© Hawlfraint 2026 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cedwir pob hawl. Ni chewch atgynhyrchu unrhyw ran o'r daflen hon heb ein caniatâd ni.
Fersiwn 2, Mai 2026